

# **CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

COFNODION CYNGOR 3 HYDREF 2017

## **Presennol**

Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng I C Thomas

## **Cynghorwyr**

E R Hughes, B Owen, W L Davies, W R Owen, W T Owen, A Hopcyn,  
C Williams, M Sarnacki, K Jones, J W Parry, K Richards, S Sage,  
R Thomas

### **1. Ymddiheuriadau**

Cyng E Lovgreen a Cyng C Larsen

### **2. Cyhoeddiadau'r Maer**

- 12.9.2017 Rhyddfraint y Bataliwn 1af Y Gwarchodlu Cymreig  
- Dinas Bangor  
Y Dirprwy Faer Cyng. Eiriona Hughes yn mynychu ar ran  
Y Maer
- 17.9.2017 Sul y Maer Conwy
- 26.9.2017 Noson Wobrwyo Cystadleuaeth Gerddi
- 28.9.2017 Bore Coffi MacMillan  
Eglwys Caersalem

### **3. Datgan Buddiant Personol**

M V Sarnacki – Llythyr eitem 19 parthed adran fasgiwlar  
W T Owen - cofnodion cyllid rhif 5ii  
J W Parry – cofnodion cyllid 5ii a 5iii  
E Hughes – Cofnodion cyllid 5ii a 5iv a lwfans y maer  
Y clerc – cofnodion cyllid cais 5ii

### **4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Dim

Ond penderfynwyd tynnu eitem 16 oddi ar y rhaglen ai drafod tu allan i'r cyfarfod

## 5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

- i. Cyngor 5 Medi 2017
- ii. Pwyllgor Adloniant 19 Medi 2017
- iii. Pwyllgor Personél 19 Medi 2017
- iv. Panel Cyllid 26 Medi 2017

Eglurodd y clerc bod yr amcangyfrifon fel rheol yn hwyrach yn y flwyddyn ond oherwydd sefyllfa iechyd y clerc eleni bod angen ei ystyried yn wreiddiol tra oedd y clerc fel swyddog ariannol ar gael i ateb cwestiynau

Felly angen eu mabwysiadu mewn egwyddor ond dal edrych ar unrhyw gais am arian a ddaw yn amserol

### **Penderfynwyd**

- i. Derbyn fel rhai cywir ( 11 o blaid 3 ymatal )
- ii. Derbyn fel rhai cywir a mabwysiadu'r argymhellion (13 o blaid )
- iii. Derbyn fel rhai cywir a mabwysiadu'r argymhellion (unfrydol)
- iv. Derbyn fel rhai cywir a mabwysiadu bob cymal heb law yr amcangyfrifon terfynol gan bod angen disgwyl i weld os ddaw ceisiadau ariannol i mewn ac angen ffigyrau er mwyn trafod swm lwfans Y Maer (10 o blaid 3 yn ymatal )

## 6. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

### **Penderfynwyd**

Derbyn au talu (unfrydol )

## 7. Cysoni Cyfrifon

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol )

## 8. Unllais Cymru/NALC

Diwygio Deddfwriaeth Diogelu Data

Eglurodd y clerc bod hwn yn holl bwysig ac yn erfyn bod rhywun yn mynychu os nad yw'r clerc ar gael

### **Penderfynwyd**

Sicrhau bod rhywun yn mynychu unwaith fydd manylion (unfrydol)

## 9. Llywodraeth Cymru

Clystyru – Ariannu i gyflwyno trefniadau cyfleusterol ar y cyd

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

## 10. Unllais Cymru

Seminar – Defnyddio dulliau cyflwyno amgen er mwyn cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth ac enwau i'r clerc (unfrydol)

## 11. Adroddiad Archwilio ynghyd a ymateb i lythyr cwyn 2016

Eglurodd y clerc bod ymateb cwyn llynedd oedd wedi ei yrru ers Mis Hydref 2016 heb ei ateb tan ar ôl iddynt gymhwyso'r archwiliad am eleni . Wedi codi pwynt newydd eleni yn ogystal sef bod manylion ebyst cynghorwyr i gyd ddim ar wefan y Cyngor

### **Penderfynwyd**

Pwyllgor personél i edrych ar y sylwadau a ffordd ymlaen (unfrydol)

## 12. Trefi Caerog

Adroddiad lafar gan Cynghorydd E. Hughes

Nodwyd bod angen penodi dau enw i'r pwyllgor Rali ceir ac i'r pwyllgor marchnata. Nodwyd bod y Golff yn Caernarfon 6ed Hydref bod y Cyfarfod blynyddol (16.11.2017) a'r Cinio blynyddol (19.1.2018) yn Ninbych tro ma

### **Penderfynwyd**

Enwebu Cyng E Hughes a Cyng M Sarnacki ar gyfer y Pwyllgor Rali Ceir a Cyng E Hughes a Cyng W L Davies ar gyfer y grŵp Marchnata (unfrydol)

### 13. Cyfarfod Unllais o Gyngor diwethaf

Adroddiad lafar gan Cynghorydd W. T. Owen  
Cafwyd adroddiad bod y cynhadledd wedi bod yn  
llwyddiannus gyda siaradwyr o swyddfa archwilio Cymru ac  
Nigel Hillier am sut i cael y gorau o wefan eich cyngor –  
nodwyd bod copi o bob cyflwyniad ar gael o wefan Unllais  
Cymru

Nodwyd bod Cyngor Drenwydd wedi cymryd drosodd  
canolfan Dydd

Am y tro cyntaf roedd gwobrau blynyddol wedi eu rhannu a  
chafwyd gwybodaeth am yr ennillwyr . am fwy o fanylion  
egluodd Cyng W T Owen bod popeth ar gael o wefan  
Unllais . Yn ogystal rhannodd Cyng W T Owen rhestr o  
gwestiynau a godwyd am drefn etholiadau a nodwyd y  
buasant ar y Cyngor nesaf am drafodaeth

#### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

**( o.n wedi holi a dim o'r cynhadledd oedd y cwestiynau a does dim  
angen i'r Cyngor eu drafod gan bod y dyddiad cau wedi bod)**

### 14. Gefeillio

- Gan drafod cofnodion y Cyfarfod Blynyddol ola  
Eglurodd y Maer y cefndir mae y Cyngor oedd wedi  
gefeillio yn wreiddiol ac yna pwyllgor hyd braich yn  
cymeryd cyfrifoldeb am y trefniadau. Gan bod diffyg  
brwdfrydedd i gael swyddogion i'r pwyllgor maent yn  
gofyn i'r Cyngor ail derbyn y cyfrifoldeb

#### **Penderfynwyd**

Trefnu noson gyhoeddus gan hysbysebu yn y wasg i weld os  
oes digon o diddordeb lleol i gario mlaen (unfrydol)

## **15. Wardeiniaid llifogydd**

Angen enwau

Nodwyd bod angen enwau newydd i gysylltu a phobl lleol pan fydd rhybudd o lifogydd yn y dref

### **Penderfynwyd**

Ward Seiont – Cynghorydd W R Owen a Cyng K Jones

Ward Menai – Cynghorydd I C Thomas a Cyng W L Davies

Ward Peblig – Cyng B Owen a Cyng K Richards

Ward Cadnant – Cyng S Sage

Mi fydd Mr Gwyn Moseley yn mynd ati i drefnu sesiwn hyfforddiant iddynt

(unfrydol )

## **16. Cinio Nadolig**

### **Penderfynwyd**

Peidio trafod yn cyngor

## **17. Nodiadau o gyfarfod criw cyngorwyr a Mr Geraint**

### **Roberts**

### **Penderfynwyd**

Dod a fo yn nol i'r Cyngor Nesaf gan obeithio bod na fwy o atebion

(unfrydol)

## **18. Llywodraethwyr**

### **Penderfynwyd**

Ethol Cyng Maria Sarnacki i Ysgol santes Helen (unfrydol)

Cyng Stuart sage i Ysgol Maesincla (unfrydol)

Cyng Richard Thomas i Ysgol y Gelli (unfrydol)

Cyng K Richards i Ysgol Hendre (8 o blaid 6 yn erbyn)

## 19. Llythyr gan yr Athro Dean Williams

Pâr: Uned fasgiwlar

Cafwyd rywfaint o'r cefndir gan Cyng A Hopcyn sef bod nhw yn ystyried symud yr adran sydd a enw byd eang o Fangor i Glan Clwyd sydd ddim yn gwneud urhyw synnwyr gan bod yr adran ym Mangor a enw mor dda yn rhyngwladol – pam newid rhywbeth more dda?

Mi fydd na gost o 2.7 Miliwn sydd felly hefyd yn wastraff gan bod yr arbenigedd ym Mangor beth bynnag

### **Penderfynwyd**

Ysgrifennu llythyr cryf at Y bwrdd iechyd , Bwrdd meddygol, Llywodraeth Cymru, Corff “Vascular Surgeons”, Aelod Seneddol, Aelod Cynulliad (unfrydol)

## 20. Cwestiynau

Oes posib rhannu rhestr o gyrsiau sydd gan Cymedau Gyntaf ymlaen rhag ofn bod gan unrhyw un diddordeb ? oes copi wedi rhoi i bob cynghorydd

Nodwyd bod Cyn Cynghorydd Brian Williams yn yr ysbyty ac roedd Y Maer am holi a dymuno'n dda iddo

Gorffennodd y cyfarfod am 19.32

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....